Cylchlythyr Gwanwyn 2024 *Spring Newsletter*

1 - ***ADRODDIAD ESTYN*** **REPORT**

AROLWG MEHEFIN 2023/ **INSPECTION JUNE 2023**

Yn dilyn yr Arolygaeth gan ESTYN, cafwyd Adroddiad hynod o gadarnhaol , gan gynnwys yr uchafbwyntiau canlynol:-

Trosolwg

- Mae Ysgol y Felinheli yn gymuned ofalgar a chroesawgar
- Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cadarn ar ddiogelu disgyblion a hyrwyddo'u lles yn effeithiol.
- Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r dulliau effeithiol mae'r staff yn eu defnyddio i gynnig profiadau creadigol cyfoethog i'r disgyblion, sy'n plethu sawl agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae medrau artistig a chreadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i rannu'r gwaith yn y gymuned leol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.
- Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn dangos cymhelliant cryf a diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu.
- Mae'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn llwyddiannus.

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles disgyblion. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan y dirprwy a'r arweinwyr canol ac mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ar draws yr ysgol.
- Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rôl ragweithiol ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn arddangos dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella

Argymhellion:

A1 Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu

A2 Darparu adborth pwrpasol fel bod y disgyblion yn gwella eu gwaith yn amserol ac yn effeithio

Roedd yr ysgol eisoes wedi adnabod yr argymhellion hyn yn dilyn ei phrosesau hunan arfarnu trylwyr , fel blaenoriaethau i'w cynnwys yng Nghynllun Datblygu yr Ysgol 2023-2024.

Following the Inspection by ESTYN, we had an extremely positive Report , including the following highlighted :-

Overview

Ysgol y Felinheli is a caring and welcoming community.

Leaders place a firm emphasis on protecting pupils and promoting their wellbeing effectively.

The school's curriculum offers a wide range of engaging and stimulating experiences. A strong feature of provision is the effective methods staff use to provide pupils with rich creative experiences, which weave together many aspects of the curriculum. As a result, the artistic and creative skills of most pupils develop solidly and they take pride in the opportunities they have to share the work in the local community.

Most pupils enjoy their time at school and making solid progress from their starting points.

Most pupils' behaviour is good and they show strong motivation and a curious interest in their learning.

The learning activities are effective in supporting pupils to successfully apply their literacy, numeracy and digital skills.

The Head teacher has a clear and firm vision for the school which is based on developing pupil wellbeing. She is ably assisted by the deputy and other leaders , having a strong sense of working together as a team across the school.

The Governors play a proactive role in the life and work of the school and demonstrate a firm understanding of the school's strengths and priorities for improvement.

Recommendations:

A1- Ensure an appropriate level of challenge to support pupils to develop their skills to the best of their ability.

A2 - Provide effective feedback so that pupils improve their work in a timely and effective manner.

The school had already identified these recommendations following its rigorous self-appraisal processes, as priorities to be included in the School's Development Plan for 2023-2024.

CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2023-2024 SCHOOL DEVELOPMENT PLAN

Dymunwn eich hysbysu o Flaenoriaethau'r ysgol yng Nghynllun Datblygu'r ysgol eleni, megis:

BLAENORIAETH 1 : Yn dilyn absenoldebau salwch a diffyg cysondeb mewn safonau a darpariaeth dros 2022-2023 , monitro cynnydd y dysgwyr y blynyddoedd dysgu yng nghanol yr Adran Iau yn eu medrau, gan sicrhau'r lefel briodol o her.

BLAENORIAETH 2: Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y dysgwyr yn ogystal â staff yr ysgol, er mwyn hybu meddwl a chorff diogel ac iach.

BLAENORIAETH 3 : Gwreiddio'n gadarn dulliau effeithiol o AaGD ac ymateb i waith y dysgwyr er mwyn sicrhau bod yr adborth yn cynnig cynnydd yn y dysgu.

BLAENORIAETH 4 :Sicrhau bod y gweithgareddau a gynllunnir yn cynnig lefel briodol o her er mwyn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu.

BLAENORIAETH 5 : Sicrhau cynnydd yn y medrau digidol ar draws y Cwricwlwm , gyda ffocws ar ddatblygu'r medrau digidol hyn mewn Data a Chynhyrchu ar draws y blynyddoedd dysgu.

BLAENORIAETH 6 : Gwella sgiliau darllen Saesneg Blwyddyn 3

Blaenoriaeth 7 :Sicrhau bod y dysgwyr ag ADY yn parhau i wneud cynnydd da a bod trefniadau effeithiol yn parhau ar waith i nodi, cynorthwyo a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol.

BLAENORIAETH ARALL (A): Gwella agwedd o fywyd yr ysgol sydd yn cael ei adnabod yng nghanol y flwyddyn academaidd mewn cyfarfodydd staff a neu wrth fonitro'n anffurfiol

DATBLYGU ADDYSG YN YR AWYR AGORED ER MWYN YMESTYN Y DOSBARTH I'R ARDAL ALLANOL A THU HWNT GAN DDEFNYDDIO'R MEDRAU AR DRAWS Y MEYSYDD

BLAENORIAETH ARALL (B) : Gwella agwedd o fywyd yr ysgol sydd yn cael eu hadnabod yng nghanol y flwyddyn academaidd mewn cyfarfodydd staff a neu wrth fonitro'n anffurfiol

SICRHAU BOD Y DDARPARIAETH AR GYFER DYSGWYR OED MEITHRIN YN GYSON DDA

Mae gennym dymor prysur o'n blaenau!

We wish to inform you of the school's priorities in this year's School Development Plan:

PRIORITY 1: Following sickness absences and a lack of consistency in standards and provision in 2022-23, monitor the progress of learners in the middle learning years of the Junior Department in their skills, ensuring the appropriate level of challenge.

PRIORITY 2: Continue to develop the provision for the health and well-being of the learners and staff of the school, in order to promote a safe and healthy mind and body.

PRIORITY 3: Firmly embed effective methods of AfL and respond to the learners' work to ensure that the feedback offers progress in the learning.

PRIORITY 4: Ensure that the planned activities offered provide the appropriate level of challenge to support pupils to develop their skills to the best of their ability. Inspection Area 3: Teaching and Learning Experiences.

PRIORITY 5: Ensure progress in digital skills across the Curriculum, with a focus on developing the digital skills in Data and Production across the learning years.

PRIORITY 6: Improve Year 3 English reading skills.

Priority 7: Ensure that learners with ALN continue to make good progress and that effective arrangements continue in practice to note, assist and monitor pupils with additional learning needs across the school.

OTHER PRIORITY (A): Improve the aspects of school life that are identified in the middle of the academic year in staff meetings and/or when monitoring informally DEVELOP OUTDOOR EDUCATION TO EXTEND THE CLASS TO THE OUTDOOR AREA AND BEYOND, USING THE SKILLS ACROSS THE AREAS.

OTHER PRIORITY (B): Improve the aspects of school life that are identified in the middle of the academic year in staff meetings and or when monitoring informally ENSURING THAT PROVISION FOR NURSERY AGE LEARNERS IS CONSISTENTLY GOOD.

We have a busy term ahead!

2 - CROESO I DDOSBARTH EICH PLENTYN ar gyfer Rhieni newydd yn y Meithrin a Blwyddyn 3 Medi 2024 .WELCOME TO YOUR CHILD'S CLASS for new parents in Nursery and parents of pupils of Year 3 September 2024.

Byddem yn cynnal sesiwn 'Croeso i Ddosbarth eich plentyn' yn yr Haf 2024 ar gyfer rhieni Meithrin a Blwyddyn 2 yn unig er mwyn i'r rhieni newydd ddod i adnabod yr ysgol a threfn y Meithrin ac i Rieni Blwyddyn 2 ddod i adnabod trefn yr Adran Iau cyn Medi. Bydd gwybodaeth yn eich cyrraedd y tymor nesaf.

We will be holding a 'Welcome to your child's Class' session in the Summer 2024 for Nursery and Year 2 parents, so that our new parents can get to know the school and the routine of Nursery Class and for Year 2 Parents to get to be aware of the Junior Department expectations before September. Information will reach you next term.

Digwyddiadau y tymor hwn / This term events:

Diwrnod Miwsig Cymru- Diwrnod o Ddawnsio!/ *Welsh Music Day - A Day of Dance!*

09/02/2024

Hanner Tymor/ *Half Term*

12/02/2024-18/02/2024

Gorymdaith o'r ysgol i'r Neuadd Goffa am 1:30yp a Chyngerdd Dydd Gwyl Dewi am 2:00yp /St Davids' Day parade from Ysgol y Felinheli to the Village Hall at 1:30pm and performances from the pupils at 2:00pm. Further information to follow.

01/03/2024

Eisteddfod Cylch/ *Bangor and Dyffryn Ogwen Eisteddfod*

02/03/2024

Eisteddfod Theatrig Rhanbarthol *Theatric Regional Eisteddfod*

04/03/2024

Noson Rieni : Dewis o 3 ddyddiad . Gwybodaeth i ddilyn/ ***Parents Evening- choice of 3 dates*** **3:30yp/pm-5:00yh/pm Information to follow.**

12/03/2024

19/03/2024

26/03/2024

Gwyliau'r Pasg/ ***Easter Holidays***

25/03/2024-07/04/2024

HMS- / ***INSET Day***

08/04/2024

Ysgol yn ail agor i'r dysgwyr/ ***School re-opens for pupils***

09/04/2024